



Mae'r darnau y cyfeirir atynt isod yn darparu cyfleoedd i gysylltu â meysydd eraill o'r Cwricwlwm:

**Rhifyn 2**

| <b>Darn</b>                                   | <b>Cyfleoedd i gysylltu â'r meysydd canlynol:</b>  |
|---|--|
| <b>Blasus<br/>Hoff fwyd<br/>Bwyd iach?</b>    | <b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• rhoi negeseuon cyfredol ynghylch bwyta'n iach ar waith mewn perthynas â'r anghenion o ran maeth ...</li> </ul>  |
| <b>Dillad chwaraeon<br/>Hwdis, jîns a ...</b> | <b>Dylunio a Thechnoleg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• meddwl mewn modd creadigol ac arloesol wrth gynhyrchu syniadau ar gyfer eu cynhyrchio</li> <li>• dysgu am briodweddau a nodweddion defnyddiau, a defnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno wrth ddylunio a gwneud cynhyrchion</li> </ul>   |
| <b>Hwdis, jîns a ...</b>                      | <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• estyn eu gwybodaeth o'r system rif, gan gynnwys degolion, cymarebau, ffracsiynau, canrannau a'r berthynas rhyngddynt</li> <li>• defnyddio amrywiaeth o strategaethau pen, ysgrifenedig a chyfrifiannell o gyfrifiannu</li> </ul>  |
| <b>Gwahanol!</b>                              | <b>Celf a dylunio</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• defnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain</li> <li>• dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau</li> <li>• ymchwilio i waith celf, crefft a dylunio lleol a Chymreig</li> </ul>  |
| <b>Cerddorfa</b>                              | <b>Cerddoriaeth</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• gwranddo ar gerddoriaeth a'i gwerthuso</li> </ul>   |
| <b>Gwych? Diflas?<br/>Cerddorfa</b>           | <b>Mathemateg</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• cyflwyno gwaith yn glir, gan ddefnyddio diagramau, graffiau wedi'u labelu a symbolau</li> <li>• defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gasglu data er mwyn dilyn trywydd ymholi</li> <li>• llunio diagramau a graffiau priodol i gynrychioli data arwahanol a data di-dor, gan gynnwys siartiau bar, graffiau llinell, siartiau cylch, polygonau amllder a diagramau gwasgariad</li> </ul> |

Yn ogystal â'r uchod, bydd cyfleoedd drwyddi draw i gwrdd â gofynion y Fframwaith Sgiliau, e.e.

### **Datblygu meddwl**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu meddwl ar draws y cwricwlwm trwy'r prosesau **cynllunio, datblygu a myfyrto**:

- archwilio, cynllunio, datblygu ac ystyried syniadau drwy siarad, darllen ac ysgrifennu ac ymateb i'w gwaith eu hunain ac i waith eraill – yn enwedig yn y darnau **Newydd a Tîm Ffantasi**
- dadansoddi, yn strwythuro ac yn trefnu eu gwaith
- defnyddio iaith yn greadigol
- defnyddio gwallau a chanlyniadau annisgwyl i ddatblygu eu dysgu
- defnyddio eu gwybodaeth o iaith i egluro a rhagfynegi
- adnabod patrymau a ffurfio rheolau
- trafod sut byddant yn dysgu iaith ac yn gwerthuso eu llwyddiant.

### **Datblygu cyfathrebu**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu ar draws y cwricwlwm trwy'r sgiliau **llafaredd, darllen, ysgrifennu a chyfathrebu ehangach**:

- cyfathrebu trwy lafaredd, darllen ac ysgrifennu, gan ddatblygu'r sgiliau hyn trwy werthuso'u gwaith eu hunain a gwaith eraill
- dysgu sut i gyfathrebu yn effeithiol ar gyfer ystod o ddibenion a chydag ystod o gynulleidfaoedd
- ymdrin ag iaith estynedig a mwyfwy cymhleth er mwyn datblygu i ddefnyddio iaith yn annibynnol ac yn hyderus
- Bydd eu sgiliau cyfathrebu yn y Gymraeg yn cefnogi ac yn hybu datblygiad sgiliau mewn ieithoedd eraill.

### **Datblygu TGCh**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau TGCh ar draws y cwricwlwm trwy **ddarganfod, datblygu, creu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau** a thrwy ddefnyddio ystod eang o offer a meddalwedd:

- cyfathrebu a rhannu gwybodaeth
- defnyddio technoleg ar gyfer ymchwil, datblygu a chyflwyno'u gwaith.

### **Datblygu rhif**

Bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau rhif ar draws y cwricwlwm trwy **ddefnyddio gwybodaeth fathemategol, cyfrifo, a dehongli a chyflwyno casgliadau**:

- defnyddio trefnolion a rhifolion
- gosod digwyddiadau mewn trefn amser
- defnyddio mesur
- cywain gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys holiaduron
- cyrchu, dethol, cofnodi a chyflwyno data mewn gwahanol fformatau.

**Cymraeg yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008, tud. 7**